

## **Adolygiad o'r gofal a ddarperir i gleifion ag anhawster dysgu neu broblem iechyd meddwl yn:**

**Ysbyty Iechyd Meddwl Annibynnol  
Coed Du Hall**

**Dyddiad yr ymweliadau: 11 Awst,  
31 Hydref ac 1 Tachwedd 2011**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Tŷ Bevan  
Parc Busnes Caerffili  
Heol y Fan  
CAERFFILI  
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 029 20 928850  
**Ebost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 029 20 928877  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

# Cynnwys

## Rhif y Dudalen

1.	Cyflwyniad a Chefndir	1
2.	Ein Canfyddiadau	4
3.	Casgliad	13
4.	Gofynion	14
5.	Y Camau Nesaf	18

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth honno ar ran Gweinidogion Cymru a ddynodwyd, trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel yr awdurdod cofrestru ar gyfer Cymru.

1.2 Rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol<sup>1</sup> fod wedi eu cofrestru ag AGIC cyn iddynt gael darparu gwasanaethau yng Nghymru, ac er mwyn cofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae mwy o wybodaeth am y Safonau a'r rheoliadau cysylltiedig ar gael yn [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk).

1.3 Ym mis Mai 2011, darlledwyd rhaglen yng nghyfres deledu ymchwiliol y BBC, *'Panorama'*, yn tynnu sylw at achosion o gam-drin unigolion ag anabledd dysgu a oedd yn byw mewn ysbyty annibynnol ym Mryste. Arweiniodd y rhaglen at bryder mawr ymhlith y cyhoedd, sy'n gwbl ddealladwy. O ganlyniad, penderfynodd AGIC ddwyn ymlaen ein rhaglen flynyddol o adolygiadau o ysbytai annibynnol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer anawsterau dysgu ac iechyd meddwl.

1.4 Pwyslais yr adolygiadau oedd sicrhau bod unigolion a oedd yn defnyddio gwasanaethau o'r fath yn:

- Ddiogel.
- Derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol.
- Derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol.
- Cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth.
- Cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd.
- Cael gwneud dewisiadau, ac yn cael eu hannog i wneud hynny.

<sup>1</sup> Gofal iechyd annibynnol – gwasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu gan y gwasanaeth iechyd.

- Cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu potensial.
- Cael defnyddio gwasanaeth eiriolwyr annibynnol a chael eu cefnogi i fynegi pryderon a chwynion.
- Cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â ffrindiau ac aelodau o'r teulu pan eu bod yn dymuno gwneud hynny.

1.5 Yn rhan o'n proses arolygu, rydym yn cynnal trafodaethau trylwyr, yn rheolaidd, â chleifion ac aelodau staff ac yn arsylwi'n ofalus yr ymadweithio rhwng cleifion a staff. Fe allem hefyd gyfarfod ag aelodau o'r teulu neu eiriolwyr cleifion i ofyn eu barn am y gofal a ddarperir. Yn ogystal ag adolygu pa mor briodol yw'r amgylchedd ffisegol, rydym yn gwerthuso safon amrywiaeth o ddogfennau gan gynnwys cynlluniau gofal cleifion, polisïau a gweithdrefnau, cynlluniau hyfforddiant a hyfforddiant sefydlu'r staff, a chofnodion cwynion, ataliad a digwyddiadau. Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg i gynnal y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiaid â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

## Coed Du Hall

1.6 Cofrestrwyd ysbyty annibynnol Coed Du Hall gan AGIC am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2004, ac ar adeg ein hymweliad, roedd wedi ei gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer dau ar hugain (22) o gleifion ar dair ward. Mae'r ysbyty yn cynnig gwasanaeth sy'n darparu triniaeth a nyrsio i gleifion ag anabledd dysgu a salwch meddwl anorganaidd a allai hefyd gael eu cadw'n gaeth dan ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983<sup>2</sup>.

1.7 Cynhaliodd AGIC ymweliad dirybudd â Choed Du Hall ar 11 Awst 2011. Dilynwyd hwnnw gan ymweliadau dirybudd ychwanegol ar 31 Hydref a 1 Tachwedd 2011.

<sup>2</sup> Deddf Iechyd Meddwl 1983 – deddfwriaeth sy'n rheoli triniaeth pobl ag anhwylder meddwl, sy'n cynnwys salwch meddwl, anhwylder personoliaeth ac anabledd dysgu, yn ôl y diffiniad ohono.

1.8 Nodir y canfyddiadau a ddeilliodd o'r ymweliadau hynny yn Adran 2 yr adroddiad hwn. Rydym wedi nodi meysydd o gryfder yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella. Mae Adran 4 yr adroddiad hwn yn rhestru gofynion AGIC o ran camau gweithredu.

1.9 Yn dilyn pob un o'n hymweliadau, rhoddwyd adborth manwl ar lafar ar y diwedd, ac yna, anfonwyd llythyr at y darparwr cofrestredig a'r rheolwr yn nodi'r tor-rheoliadau.

## 2. Ein Canfyddiadau

2.1 Mae cylch gorchwyl yr adolygiad hwn wedi'i drefnu ar sail cyfres o gwestiynau sylfaenol yr ydym ni'n teimlo y byddai cleifion, eu perthnasau a chomisiynwyr gwasanaethau<sup>3</sup> yn dymuno i ni eu gofyn. Er mwyn eu gwneud yn eglur ac yn haws cyfeirio atynt, rydym wedi nodi ein canfyddiadau o dan bennawd pob cwestiwn. Ystyrir y cwestiwn cyntaf:

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn ddiogel?'***

yn Adran 3 yr adroddiad hwn, lle'r ydym yn cyflwyno ein casgliadau a'r camau nesaf. Gellir ateb y cwestiwn hwn dim ond ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r cwestiynau isod:

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol?'***

2.2 Ar adeg ein hymweliadau, roedd y cleifion yn derbyn gofal ar bob un o'r tair ward, sef ward dynion, ward menywod a ward i ddynion a menywod.

### Ward Ash

2.3 Roedd saith gwely ar gael ar y ward menywod. Roedd yn olau yno gyda digon o awyr iach, ond nid oedd unrhyw luniau wedi eu gosod ar y waliau. Roedd digon o le ar gael ar y ward, ac ar adeg ein hymweliad, roedd newydd ei hailaddurno. Roedd y ward yn cynnwys ystafelloedd gwely unigol i gleifion ac roeddent yn cynnwys eitemau personol y cleifion, ac roedd y ward wedi ei chynllunio mewn modd a oedd yn gwneud arsylwi'n hawdd ar y cyfan. Yn ystod ein hymweliad cyntaf, roedd yn achos pryder i ni

<sup>3</sup> Comisiynwyr gwasanaethau – y sefydliad sy'n prynu gwasanaethau a thriniaeth gan y darparwr cofrestredig.

nad oedd system ddigonol ar gyfer galw nyrs ar gael mewn unrhyw ran o'r ysbyty, ond roedd hynny wedi derbyn sylw erbyn adeg ein hail ymweliad.

## Ward Beech

2.4 Ar adeg ein hymweliad, roedd pump o gleifion gwrywaidd yn derbyn gofal ar Ward Beech, ac roedd amgylchedd y ward wedi ei wella'n sylweddol yn y cyfnod rhwng ein hymweliadau, gan gynnwys cryn waith ailaddurno. Roedd y rhan fwyaf o'r eitemau a oedd wedi eu cadw'n amhriodol wedi eu symud oddi yno yn y cyfnod rhwng ein hymweliadau, ac roedd hynny wedi gwella'r amgylchedd yn sylweddol. Roedd lluniau a pheth gwaith celf wedi eu gosod ar waliau'r ward.

## Ward Cedar

2.5 Roedd Ward Cedar yn ward i ddynion a menywod a oedd yn cynnwys 10 ystafell wely, ac roedd pedair ohonynt ar ffurf fflatiau annibynnol. Roedd yr amgylchedd yn olau gyda digon o awyr iach yno, ac roedd lluniau wedi eu gosod ar y waliau. Roedd yn achos pryder i ni nad oedd y dŵr ar gyfer cael bath yn ddigon cynnes.

2.6 Roedd gwaith wrthi'n cael ei wneud i osod system galw nyrs ar gyfer cleifion. Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod system galw nyrs yn cael ei gosod ym mhob un o'r manau ar gyfer cleifion yn y sefydliad, ac mae'n rhaid gosod system addas ar gyfer pob mynedfa i rybuddio'r staff pe byddai'r drws yn cael ei agor. Yn ogystal, mae angen llunio rhaglen cynnal a chadw ataliol, adnewyddu ac ailaddurno ar gyfer pob rhan o'r sefydliad. Roedd yn achos pryder i ni hefyd yn yr ysbyty drwyddo draw nad oedd rhai o'r dodrefn yn y lolfeydd yn briodol ar gyfer pobl ag anabledd corfforol.

***‘A oedd y bobl a oedd yn defnyddio’r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi’n briodol?’***

## **Archwilio**

2.7 Roedd proses gyfyngedig wedi ei sefydlu ar gyfer cynnal archwiliadau, ond nid oedd yn cynnwys system gynhwysfawr o archwiliadau ar gyfer swyddogaeth y tîm amlddisgyblaethol.

## **Niferoedd y Staff**

2.8 Dangosodd ein hymweliadau fod y niferoedd staffio yn ddigonol a’u bod yn cynnwys amrywiaeth o nyrsys iechyd meddwl, nyrsys anabledd dysgu a nyrsys cyffredinol hyfforddedig. Mae pum nyrs gofrestredig ar ddyletswydd fel arfer, ac o leiaf dwy ar ôl 4.00pm. Roedd y rheolwr cofrestredig a’r dirprwy reolwr yn swyddogion ychwanegol a heb eu cynnwys yn rhestr ddyletswyddau’r staff. Ar adeg ein hymweliad cyntaf, roedd saith claf a phedwar aelod o staff ar ward Ash; roedd tri chlaf a dau aelod o staff ar ward Beech, ac roedd deg o gleifion a phedwar aelod o staff ar ward Cedar.

2.9 Roedd y ffaith nad oedd seicolegydd cymwysedig ar gael i’r ysbyty yn peri pryder i ni, ac mae angen i’r rheolwr sicrhau bod y person sydd â gradd mewn seicoleg ond heb gymwysterau clinigol yn cael ei oruchwylio/goruchwylio’n briodol. Ers ein hymweliad, fe’n hysbyswyd mai fel technegydd ymddygiad yr oedd y person cael ei gyflogi, gan ddarparu data a dadansoddiad o ymddygiad, ond nid therapïau seicolegol.

2.10 Gwelwyd bod y cleifion a’r staff yn ymadweithio’n dda â’i gilydd a bod gan y staff berthynas dda â’r cleifion, gan ddangos ymagwedd dawel a chyfeillgar tuag atynt.

## Hyfforddiant Staff

2.11 Cyfwelwyd 10 aelod o staff yn ystod ein hymweliadau, a chanfuwyd bod ganddynt lefel dda o brofiad a bod hyfforddiant gorfodol wedi ei sefydlu a bod swyddog hyfforddi ar gael. Archwiliwyd cofnodion cyflogaeth y staff hefyd, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am yr hyfforddiant yr oedd aelodau amrywiol o staff wedi ei ddilyn. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn cael eu monitro gan y dirprwy reolwr, ac roedd proses wedi ei sefydlu i sicrhau bod anghenion hyfforddiant unigol yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, nid oedd nodi anghenion hyfforddiant yn rhan o werthusiadau blynyddol y staff.

2.12 Dywedodd yr aelodau staff a gyfwelwyd fod eu hanghenion hyfforddiant yn cael eu bodloni a'u bod yn edrych ymlaen at gael mwy o hyfforddiant mewn cynllunio gofal a datblygu'r broses o adsefydlu cleifion. Roedd gwerthuso sgiliau a hyfforddiant datblygiadol y therapydd galwedigaethol a'r technegwyr hefyd yn rhan annatod o'r broses hyfforddi a datblygu ar gyfer yr ysbyty.

2.13 Gellid gwella cyfathrebu rhwng nyrsys cofrestredig a chynorthwywyr gofal iechyd mewn rhai achosion, a hoffem weld mwy o gyfleoedd iddynt weithio gyda'i gilydd i gyflawni gorchwylion dyddiol. Gallai hynny olygu bod angen adolygiad o sut y gellid rheoli'r gwaith papur yn fwy effeithlon er mwyn caniatáu i nyrsys gael mwy o amser i arwain, cyfarwyddo a gweithio ochr yn ochr â chynorthwywyr gofal iechyd.

2.14 Roedd sesiynau goruchwyllo'n cael eu cynnal, yn enwedig ar gyfer nyrsys cofrestredig a gweithwyr proffesiynol eraill, ond y mae angen cynnal yr oruchwyliaeth yn fwy rheolaidd ac yn fwy cyson ar gyfer cynorthwywyr gofal iechyd.

2.15 Mae'r cynllun tiwtoriaeth ar gyfer nyrsys sydd newydd eu cofrestru wedi ei hen sefydlu, a chanfuom ei fod yn cael ei gyflwyno'n dda a'i fod yn cynnwys amcanion ac amserlenni eglur.

2.16 Nid oedd gwerthusiadau blynyddol yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer y staff. Mae angen iddynt fod yn rhan annatod o'r rhaglen hyfforddi, a dylent fod yn rhan bwysig o nodi amcanion a monitro sgiliau'r staff a'u hagwedd at gleifion.

2.17 Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff sy'n gweithio mewn gwahanol broffesiynau, megis seicolegydd anghymwysedig, yn cael eu goruchwyllo'n briodol gan unigolyn sy'n gymwysedig i gynnal arfer da.

## **Cofnodion y Staff**

2.18 Adolygwyd sampl o gofnodion y staff, a gwelwyd nad oedd tystiolaeth ar gael o dystlythyrau gan ddau gyflogwr diweddaraf unigolion; tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymwysterau perthnasol; hanes cyflogaeth llawn a chadarnhad fod unigolyn wedi ei gofrestru gan y corff priodol, er enghraifft, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, a chytundeb ynglŷn â breintiau ymarfer ar gyfer ymarferwyr meddygol. Derbyniodd AGIC gadarnhad yn ddiweddarach fod y materion ynglŷn â chofnodion y staff wedi derbyn sylw.

## **Polisiâu a Gweithdrefnau**

2.19 Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar gael, ac roedd tystiolaeth fod y staff yn ymwybodol o'r rhain a'u bod yn gwybod ble i ddod o hyd iddynt pe byddai angen cyfeirio atynt.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth eu hunain, eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd, ac yn cael gwneud dewisiadau a'u hannog i wneud hynny?'***

## Adolygu Dogfennau Cynllunio Gofal

2.20 Adolygwyd dogfennau cynllunio gofal, a nodwyd eu bod yn cael eu cynnal yn dda yn gyffredinol ac yn cynnwys gwybodaeth berthnasol yn gyffredinol i gyfrannu at y gofal a thriniaeth. Roedd cofnod cynhwysfawr o fanylion personol a manylion cyswllt ar gael ym mhob un o'r ffeiliau. Fodd bynnag, dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau yr adolygir y cynlluniau gofal yn rheolaidd, ac o ystyried bod gan rai cleifion anabledau corfforol, dylai'r rhain gael eu nodi'n eglur yn y cynlluniau gofal.

2.21 Gwelsom dystiolaeth fod anghenion a dymuniadau personol y cleifion yn cael eu nodi yn y cynlluniau gofal, a bod y cleifion yn cael eu hannog i lofnodi eu cynlluniau gofal. Nodwyd bod cleifion wedi gwrthod llofnodi mewn ychydig o achosion. Roedd dystiolaeth ar gael i ddangos bod teuluoedd y cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses cynllunio gofal ac y'u gwahoddir i adolygiadau cynllunio gofal, pan fo hynny'n briodol. Roedd dogfennau ar gael i gadarnhau bod nyrsys cofrestredig yn treulio amser yn trafod cynlluniau gofal â chleifion ac yr ategir hynny mewn cyfarfodydd rheolaidd wyneb-yn-wyneb.

2.22 Roedd dystiolaeth ar gael yn y dogfennau gofal i ddangos y cynhelir asesiadau risg ynglŷn â hunan-niweidio, dianc ac ymddygiad heriol, ac roedd unrhyw ddigwyddiadau o ymddygiad o'r fath wedi eu cofnodi'n dda.

2.23 Roedd cyfeiriadau ar gael yn y dogfennau a archwiliwyd fod cleifion yn cael eu gweld gan eu cydgysylltydd gofal cymunedol<sup>4</sup> ac y gwahoddir y teuluoedd i gyfarfodydd adolygu'r Dull Rhaglen Ofal.

<sup>4</sup> Cydgysylltydd Gofal Cymunedol – Gweithiwr proffesiynol cymwysedig ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol sy'n llunio a goruchwyllo cynllun gofal yn rhan o'r Dull Rhaglen Ofal.

***‘A oedd y bobl a oedd yn defnyddio’r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy’n eu hannog i wireddu eu potensial?’***

## **Gweithgareddau’r Cleifion**

2.24 Trafodwyd nifer o faterion â’r cleifion, gan ganolbwyntio ar ba un a oeddent yn teimlo’n ddiogel ac yn cael eu cynorthwyo’n briodol, a pha un a oeddent o’r farn fod digon o amrywiaeth o weithgareddau ar gael. Yn gyffredinol, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo y gallant siarad â’r staff, a’u bod yn derbyn gofal da mewn amgylchedd diogel a bod amrywiaeth o weithgareddau ar gael.

2.25 Roedd amrywiaeth dda o weithgareddau therapiwtig ar gael i’r cleifion, yn ogystal â grwpiau ymlacio, coginio, bingo, a sesiynau DVD, ac roeddent yn cael eu helpu i ymweld â’r gymuned ar eu pennau eu hunain a chyda hebryngwr, pa un bynnag oedd yn briodol. Roedd dau fws mini wedi eu prynu’n ddiweddar ac roeddent yn cael eu defnyddio’n rheolaidd. Roeddem yn falch o gael gwybod bod *‘Dull Gweithredol’* yn cael ei ddatblygu i ganiatáu i’r cleifion gael mwy o ddewisiadau unigol.

2.26 Roedd y cleifion yn cael symud o gwmpas yn rhydd yn gyffredinol, ac yn cael mynd i’r ardd eang.

## **Arlwyo**

2.27 Roedd y cleifion a’r staff yn canmol safon y bwyd yn fawr. Roedd dewisiadau ar gael, gan gynnwys ffrwythau ffres a byrbrydau.

2.28 Mae clwb brechwast dyddiol ar gael i’r holl gleifion lle y gallant ddod ynghyd i baratoi eu brechwast eu hunain. Roedd y cleifion hefyd yn gwneud defnydd helaeth o’r gegin adsefydlu.

***‘A oedd y bobl a oedd yn defnyddio’r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael defnyddio gwasanaethau eiriolwyr annibynnol ac a oeddynt yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a chwynion?’***

## **Eirioli, Pryderon a Chwynion**

2.29 Roedd gwasanaeth eirioli ar gael yn rheolaidd, ac roedd y cleifion yn gallu gwneud apwyntiad dros y ffôn. Roedd yr eiriolwr yn mynd gyda’r cleifion i adolygiadau o achosion a thriwlysoedd adolygu iechyd meddwl a hefyd yn helpu’r cleifion i wneud cwynion.

2.30 Roedd y staff yn glir ynglŷn â’u dyletswydd i helpu’r cleifion i wneud cwynion, ac roedd y cleifion a gyfwelwyd yn ffyddiog y byddai’r staff yn eu helpu.

2.31 Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth, gan gynnwys taflenni priodol ynglŷn â’u hawliau dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Roedd deunydd hawdd ei ddarllen ar gael, ac roedd y staff yn trafod gwybodaeth am ofal a meddyginiaeth mewn cyfarfodydd preifat gyda’r cleifion.

2.32 Roedd y staff a’r cleifion yn canmol y polisi drws agored yr oedd y rheolwr yn ei weithredu, ac yn ystod ein hymweliadau, gwelsom y polisi hwn yn cael ei ddefnyddio sawl gwaith gan unigolion a oedd eisiau gofyn cwestiynau neu a oedd yn ceisio sicrwydd.

***‘A oedd y bobl a oedd yn defnyddio’r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â ffrindiau ac aelodau o’r teulu pan oeddynt yn dymuno gwneud hynny?’***

## **Cymorth i Gleifion Gadw mewn Cysylltiad â'u Teulu a Ffrindiau**

2.33 Roedd y cleifion yn cael eu hannog i ffonio eu teulu a'u ffrindiau, ond nodwyd bod y ffôn wedi ei leoli mewn man lle y gellid clywed sgysiau yn rhwydd.

2.34 Roedd y cleifion yn cael eu helpu i ymweld â'u teulu, yn amodol ar gael bod yn absennol pe byddent yn cael eu cadw'n gaeth. Roedd teuluoedd a ffrindiau'n cael eu hannog i ymweld â'r ysbyty.

### 3. Casgliad

#### *'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn ddiogel?'*

- 3.1 Cynhaliwyd ymweliadau AGIC ar 11 Awst, 31 Hydref a 1 Tachwedd 2011, a nodwyd rhai tor-rheoliadau a phryderon o bwys.
- 3.2 Yn syth ar ôl ein hymweliad cyntaf, anfonodd AGIC lythyr at y darparwr cofrestredig a oedd yn nodi'r materion yr oedd angen rhoi sylw di-oed iddynt. Mewn ymateb i'n llythyr, cyflwynodd y darparwr cofrestredig gynllun gweithredu i AGIC.
- 3.3 Roedd y camau a gymerwyd gan y darparwr cofrestredig mewn ymateb i'r gofynion yn cynnwys:
  - Cael system galw nyrs newydd, a chyflwyno rhaglen cynnal a chadw ac ailaddurno.
  - Sicrhau bod dogfennau priodol, gan gynnwys tystlythyrau, ar gael wrth benodi staff.
  - Cynnal archwiliadau ar gyfer yr adeiladau a materion clinigol.
- 3.4 Er bod sawl mater o bwys wedi ei nodi yn yr adroddiad yn dilyn y llythyr a anfonwyd i Goed Du Hall, mae'r darparwr cofrestredig wedi llunio nifer o gynlluniau gweithredu ac wedi eu rhoi ar waith. Gwelwyd gwelliannau yn ystod ein hail ymweliad, ac mae'n rhaid cynnal hyn. Dylid llunio cynllun gweithredu diwygiedig mewn ymateb i'r adroddiad hwn.

## 4. Gofynion

4.1 Mae'r gofynion a nodir isod yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a nodwyd un ai o ganlyniad i'r arolygiad neu yn sgil gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan ac ynglŷn â'r darparwr. Yr *'unigolyn cofrestredig'* sydd, yn ôl y ddeddfwriaeth, yn cynnwys darparwr cofrestredig a/neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth, yn gyfrifol am gyflawni'r gofynion hyn. Rhaid i'r unigolyn cofrestredig ddarparu cynllun gweithredu sy'n cadarnhau sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r camau gofynnol. Os bydd angen, bydd AGIC yn cymryd camau gorfodi i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau.

Safon Ofynnol Genedlaethol	Rheoliad	Canfyddiadau (Rhif y Paragraff)	Camau Gofynnol	Amserlen
12 a 22	9 (1) (ng), 19 (1) (b) a 26 (2) (a)	2.5 a 2.6	Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig sicrhau y gosodir system galw nyrs ym mhob un o'r manau ar gyfer cleifion yn y sefydliad, ac mae'n rhaid gosod system addas ar gyfer pob mynedfa i rybuddio'r staff pe byddai'r drws yn cael ei agor. Yn ogystal, mae angen llunio rhaglen, cynnal a chadw ataliol, adnewyddu ac ailaddurno ar gyfer pob rhan o'r sefydliad.	Mae AGIC ar ddeall bod y system galw nyrs a system rybuddio ar gyfer y drysau wedi eu gosod, ond y mae angen rhaglen gynhwysfawr o gynnal a chadw ataliol, adnewyddu ac ailaddurno erbyn 28 Chwefror 2013.

24	21 (2) (ch)	2.18	Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth neu ddogfennau llawn a boddhaol ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff, gan gynnwys: tystlythyrau gan ddau gyflogwr diweddaraf yr unigolyn; tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymwysterau perthnasol; hanes cyflogaeth llawn; cadarnhad fod unigolyn wedi ei gofrestru gan y corff priodol, er enghraifft, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, a chytundeb ynglŷn â breintiau ymarfer ar gyfer ymarferwyr meddygol.	Yn ddi-oed ac yn barhaus.
1	19 (1) (a)	2.7	Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gyflwyno system gynhwysfawr o archwilio sy'n cynnwys archwiliad parhaus o ddiffygion adeiladau, hysbysu am beryglon ac amseroedd ymateb o ran gwneud atgyweiriadau, a rhaglen o archwilio y cytunwyd arni ar gyfer y tîm amlddisgyblaethol. Ar ôl cynnal yr archwiliadau, mae'n rhaid anfon copi o'r canfyddiadau i AGIC.	Mae'n rhaid cyflwyno system gyflawn o archwiliadau erbyn 28 Chwefror 2013, ac ar ôl cynnal yr archwiliadau, mae'n rhaid anfon copi o'r canfyddiadau i AGIC.

12	26 (2) (a)	2.6	Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cadeiriau sydd wedi eu lleoli yn y manau ar gyfer y cleifion yn addas i'w diben, o ystyried bod gan rai cleifion anawsterau corfforol.	Yn ddi-oed ac yn barhaus.
8	15 (1) (a) (b) a (c)	2.20	Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cynlluniau gofal yn nodi anghenion corfforol cleifion yn eglur, ac yr adolygir y cynlluniau'n rheolaidd.	Yn ddi-oed ac yn barhaus.
24	20 (2) (a)	2.14 a 2.16	Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael goruchwyliaeth reolaidd a gwerthusiadau blynyddol er mwyn nodi anghenion hyfforddiant a datblygiadol, ac er mwyn mesur ansawdd y gofal.	Yn ddi-oed ac yn barhaus.
24	20 (2) (a)	2.17	Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff sy'n gweithio mewn gwahanol broffesiynau, megis y seicolegydd anghymwysedig, yn cael eu goruchwyllo'n briodol gan unigolyn sy'n gymwysedig i gynnal arfer da.	

24	15 (1) (a) a (b) a 20 (2) (a)	2.13	Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau y rhoddir digon o amser i'r nyrsys weithio'n agos gyda gweithwyr cymorth wrth ofalu am gleifion o ddydd i ddydd a datblygu mwy ar y broses o adsefydlu cleifion.	
----	-------------------------------------	------	---	--

## 5. Y Camau Nesaf

5.1 Bydd AGIC yn cynnal mwy o ymweliadau ag ysbyty Coed Du Hall, ac asesir ymhellach y cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r cynllun gweithredu.

5.2 O ganlyniad i'r adroddiad hwn, mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig bellach anfon cynllun gweithredu wedi ei ddiweddarau i AGIC yn rhoi sylw i'r holl feysydd rheoliadol a nodir yn yr adroddiad hwn, a hynny o fewn pythefnos.